Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 37 (14eg i'r 20fed o Ragfyr 2020)**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Mae'r arolwg yn cyfweld tua 600 o unigolion a ddewiswyd ar hap bob yn ail wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir yn sail i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiadau bob pythefnos. Caiff data arolwg eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.*

Mae'r arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau rheolaidd a ofynnir bob wythnos arolwg, gyda chwestiynau eraill yn newid yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Roedd arolwg yr wythnos hon yn cynnwys cwestiynau ar gynlluniau unigolion i gwrdd â phobl dros y Nadolig. Cwblhaodd yr holl gyfranogwyr yr arolwg cyn y cyhoeddiad a oedd yn cyfyngu cymysgu cartrefi adeg y Nadolig i un diwrnod (25 Rhagfyr) ac yn cyflwyno'r cyfyngiadau symud cenedlaethol.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



*Oni nodir yn wahanol. Oddi fewn i'r adroddiad, efallai na fydd y ffigurau bob amser yn adio fyny i 100% oherwydd talgrynnu.

# Prif ganfyddiadau'r wythnos hon

Cafodd 602 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hŷn eu cyfweld yn ystod wythnos 37 o'r arolwg (14eg i'r 20fed o Ragfyr).

## 16%

o bobl yn meddwl eu bod wedi cael neu wedi cael coronafeirws ar hyn o bryd. Dywedodd un o bob deugian o gyfranogwyr fod ganddynt symptomau acíwt neu hirdymor ar hyn o bryd.

## 28%

o bobl wedi bod yn poeni 'llawer' am fynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws ac mae 57% wedi bod yn poeni 'lot' am golli rhywun mae nhw'n ei garu i'r feirws; i fyny o 18% a 42% yn y drefn honno yn ystod wythnos yr arolwg diwethaf.

## 79%

o bobl yn dweud y byddent eisiau (78%) neu eisoes wedi cael (1%) y brechiad coronafeirws; cynnydd o 68% yn dweud y byddent am gael brechiad o wythnos blaenorol yr arolwg.*

## 58%

o bobl yn cytuno â'r datganiad 'Rwy'n credu bod llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r problemau a achosir gan coronafeirws yn dda'; lawr o 67% yn wythnos yr arolwg diwethaf.

## 48%

o bobl yn dweud y byddai'n well ganddynt gael cyfyngiadau llymach dros y Nadolig (gofynnwyd cwestiynau cyn tynhau'r cyfyngiadau). Roedd 42% o'r farn bod cyfyngiadau'r Nadolig ar adeg yr arolwg tua'i le a dywedodd 10% y byddai'n well ganddynt gael cyfyngiadau mwy llac.

## 65%

o bobl yn cytuno â'r datganiad "Rwy'n hyderus y byddai'r GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pe byddwn yn mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws lawr o 80% yn wythnos yr arolwg diwethaf.

## 27%

o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n bryderus iawn#; fyny o 21% yn wythnos yr arolwg diwethaf.

## 34%

o bobl wedi bod yn poeni "llawer" am fynd allan mewn mannau cyhoeddus; fyny o 20% o'r wythnos yr arolwg diwethaf.

## 60%

o bobl yn anghytuno â'r datganiad "rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol "i fyny o 48% yn wythnos yr arolwg diwethaf"

*Dechrewyd brechu Coronafeirws yng Nghymru ar yr 8fed o Ragfyr; #Ymatebion o 7-10 ar raddfa lle mae 0 = ddim yn bryderus a 10 = yn bryderus iawn.


# Ynglŷn â coronafeirws

| Cwestiwn | Ymateb | % |
|---|---|---|
| Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws | Do* | 16% |
| | Ddim yn gwybod | 8% |
| Ydych chi wedi cael eich profi am glefyd coronafeirws neu ydach chi wedi cael y prawf gwrthgyrff? | Wedi cael prawf coronafeirws | 36% |
| | Wedi cael prawf gwrthgyrff | 7% |
| Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws? | Dim o gwbl | 23% |
| | Ychydig | 21% |
| | Gymedrol | 32% |
| | Hynod | 24% |

*Dywedodd 2.5% o gyfranogwyr fod ganddynt symptomau acíwt neu hirdymor coronafeirws ar hyn o bryd.

# Gwybodaeth a chydymffurfio â'r cyfyngiadau

**Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau presennol sydd ar waith yng Nghymru i leihau lledaeniad coronafeirws?**




---


**Ar raddfa o 1 i 10, gydag 1 yn ddim o gwbl a 10 yn llwyr, i ba raddau fyddwch chi'n dweud eich bod yn dilyn y cyfyngiadau?**

Dim o gwbl — Yn llwyr

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2% | 0% | 1% | <1% | 1% | 1% | 9% | 24% | 23% | 38% |

---


**Dwi'n credu fod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol**



# Cadw pellter cymdeithasol

| | Dim | 1 - 2 | 3 - 10 | Mwy na 10 |
|---|---|---|---|---|
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl eraill ydych chi wedi dod i gysylltiad agos â nhw, o fewn 1 metr? | 37% | 19% | 18% | 26% |
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref chi eich hun neu aelwyd estynedig a ganiateir, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl sydd wedi dod i mewn i'ch tŷ? | 69% | 26% | 5% | <1% |
| Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o dai pobl eraill rydych chi wedi bod ynddyn nhw - heb gynnwys tai aelwyd estynedig a ganiateir? | 81% | 16% | 1% | 3% |

**Pan fyddwch gyda phobl o'r tu allan i'ch cartref neu aelwyd estynedig, fel ffrindiau neu cydweithwyr yn y gwaith, a ydych yn cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr...?**





**Ddim yn cwrdd â phobl o'r tu allan i'r cartref*


Gofynnwyd y cwestiynau cyn y cyhoeddiad yn cyfyngu cymysgu cartrefi i ddiwrnod Nadolig yn unig i swigod o ddau aelwyd.

## Mae cyfyngiadau coronafeirws yn cael eu newid rhwng 23ain a 27 ain o Ragfyr er mwyn caniatau i bobl dreulio amser gydag aelodau o'r teulu neu ffrindiau dros y Nadolig. Dros y cyfnod hwn, ydych chi'n cynllunio….


…ar gael ffrindiau neu aelodau o'r teulu o aelwydydd eraill i ymweld â chi gartref?




…ar ymweld ag unrhyw deulu neu ffrindiau yn eu cartrefi?





Cyfran sy'n cynllunio naill a'i i gael ymwelwyr neu ymweld ag eraill





## Ydach chi'n bwriadu ffurfio swigen Nadolig?

*Holl*





*Yn gyfyngedig i'r rhai sy'n bwriadu naill a'i gael ymwelwyr neu ymweld ag eraill**




**Data heb ei bwysoli*

Gofynnwyd y cwestiwn cyn y cyhoeddiad yn cyfyngu cymysgu cartrefi i ddiwrnod Nadolig yn unig i swigod o ddau aelwyd.


## Pa un o'r datganiadau hyn ydych chi'n cytuno â nhw fwyaf?



# Brechu

## Pe baech yn cael cynnig y brechiad…


### Fyddech chi'n bersonol eisiau cael eich brechu?




*Dechreuodd brechiadau coronafeirws ar Ragfyr yr 8fed

*I'r rhai sydd gyda plant yn yr aelwyd**:*

### Fyddech chi eisiau i'ch plant gael eu brechu




***Cyfyngedig i'r rhai â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ac eithrio'r rhai sy'n ymateb 'ddim yn berthnasol'; data heb ei pwyso.*

I'r rhai a ymatebodd 'na' neu 'ansicr' i fod eisiau cael eu brechu'n bersonol, gofynnwyd cwestiwn penagored am eu rheswm dros yr ymateb hwn.

Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd yn ymwneud â'r anghysur â chyflymder datblygu'r brechiad, diffyg tystiolaeth a/neu sgil-effeithiau anhysbys.

Roedd rhesymau eraill yn cynnwys cael cyflyrau iechyd presennol fel alergeddau; ddim yn teimlo'r angen i gael eu brechu oherwydd risg isel canfyddedig neu fod wedi cael coronafeirws eisoes; a ddim yn cytuno â brechiadau 'n gyffredinol.


### Ydy'r newyddion diweddar am effeithiolrwydd y brechiadau coronafeirws a chynlluniau i ddechrau rhaglenni brechu……

| | |
|---|---|
| Eich gwneud yn fwy hamddenol ynghylch a ydych yn dilyn cyfyngiadau coronafeirws a'i peidio | 6% |
| Eich gwneud yn fwy penderfynol o ddilyn y cyfyngiadau | 27% |
| Heb gael unrhyw effaith ar eich ymddygiad | 67% |

Wythnos 37 (14eg i'r 20fed o Ragfyr 2020)

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref neu'ch gardd?




## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref…

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 53% | 5% | 10% | 32% |
| …i siopa | 32% | 54% | 10% | 5% |
| …am resymau meddygol | 80% | 17% | 2% | <1% |
| …i ymarfer corff | 66% | 12% | 3% | 19% |
| …i gwrdd â teulu / ffrindiau | 75% | 20% | 2% | 3% |
| …bwyta mewn caffi, tafarn neu fwyty | 92% | 7% | 1% | <1% |
| …am ddiod mewn tafarn neu far | 98% | 2% | 0% | 0% |

# Pa mor dda ydym ni'n ymdopi â choronafeirws?

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 10% | 48% | 14% | 19% | 8% |
| Rwyf yn hyderus y byddai GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pebawn yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 18% | 47% | 9% | 21% | 5% |
| Rwyf yn hyderus y gwnaiff yr heddlu ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 14% | 47% | 10% | 23% | 6% |

# Ansawdd bywyd

| Cwestiwn | Ateb | % |
|---|---|---|
| **Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy'r cyfyngiadau clo a chyfyngiadau eraill coronafeirws wedi effeithio ar ansawdd eich bywyd?** | Naddo | 32% |
| | Do, mae wedi gwaethygu | 64% |
| | Do, mae wedi gwella ansawdd fy mywyd | 4% |
| **Yn gyffredinol, dros y 6 mis diwethaf, ydy poeni am ddal coronafeirws wedi gwneud ansawdd eich bywyd yn waeth?** | Do | 48% |
| | Naddo | 52% |
| **Be sydd yn eich poeni chi fwyaf?** | Dal coronafeirws | 77% |
| | Cyfyngiadau pellach yn cael eu gosod arnoch chi | 23% |

# Am beth ydym ni'n ei boeni?

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 36% | 36% | 28% |
| Colli rhywun annwyl i'r feirws | 19% | 24% | 57% |
| Lles eich plant*#~ | 21% | 21% | 59% |
| Addysg eich plant*#~ | 18% | 24% | 58% |
| Colli'ch swydd neu fethu â dod o hyd i un#~ | 61% | 17% | 22% |
| Gwaith, hyd yn oed os yw'ch swydd yn ddiogel#~ | 52% | 24% | 23% |
| Eich materion ariannol | 57% | 20% | 22% |
| Mynd allan i fannau cyhoeddus# | 37% | 29% | 34% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ~Data heb eu pwysoli; #Ac eithrio'r rhai a ymatebodd 'ddim yn berthnasol'

Wythnos 37 (14eg i'r 20fed o Ragfyr 2020)

# Sut ydym yn teimlo?

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo’n iach** | **Pa mor iach ydych chi’n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn iach o gwbl; 10 = Iach iawn | 9% | 38% | 53% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo’n hapus** | **Pa mor hapus ydych chi’n teimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Hapus iawn | 8% | 34% | 58% |

| | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo’n bryderus** | **Pa mor bryderus ydych chi’n ei deimlo heddiw ?**<br>0 = Ddim yn bryderus o gwbl; 10 = Yn hynod o bryderus | 38% | 35% | 27% |

| | | 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| **Ymarfer corff** | **Sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o ymarfer corff (digon i wneud i chi golli eich anadl)?** | 39% | 32% | 29% |

# Sut ydym yn teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n….

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 70% | 61% |
| Weithiau | 18% | 21% |
| Yn aml | 8% | 10% |
| Wastad | 4% | 8% |

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni?

Eich iechyd a'ch lles meddyliol

| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 44% |
| Ychydig | 32% |
| Llawer | 24% |

Wythnos 37 (14eg i'r 20fed o Ragfyr 2020)

## Cyhoeddwyd Rhagfyr 10fed 2020

# Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Dr Emma Harrison


**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,**
**Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ


Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

phwwhocc.co.uk

@phwwhocc Phwwhocc

## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

